***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 744

# Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022.

(2) Daw rheoliadau 1 i 4 ac Atodlen 1 i rym ar 1 Medi 2022.

(3) Daw Atodlen 2 i rym fel a ganlyn—

(a) ar 1 Medi 2022—

(i) ar gyfer plentyn neu ddisgybl sy'n cael addysg feithrin,

(ii) ar gyfer disgyblion mewn blwyddyn derbyn,

(iii) ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlynyddoedd 1 i 6, a

(iv) ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlwyddyn 7 y darperir cwricwlwm perthnasol iddo o dan Ddeddf 2021,

(b) ar 1 Medi 2023 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlynyddoedd 7 ac 8,

(c) ar 1 Medi 2024 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlwyddyn 9,

(d) ar 1 Medi 2025 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlwyddyn 10, ac

(e) ar 1 Medi 2026 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlynyddoedd 11 i 13.